Economi a Chymuned / Economy and Community
Gwasanaeth Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau
Archives, Museums and Arts Service
Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH



# Megan Cynan Corcoran

## Cydlynydd Amgueddfeydd a Gwirfoddoli

Dwi'n rhedeg Storiel ac Amgueddfa Lloyd George ddydd i dydd gan ganolbwyntio ar iechyd a diogelwch, cyfathrebu a marchnata ynghyd a'r elfennau busnes.

Mi gychwynnais i yn Amgueddfa Lloyd George yn 2015, cyn gweithio fel Swyddog Treftadaeth dros gyfnod mamolaeth yn Storiel, yno gefais secondiad i weithio gyda Pabis Coch Castell Caernarfon yn Hydref 2016 ac ers Rhagfyr 2016 dwi wedi bod yn y rôl yma.

Y peth gorau am y swydd di'r amrywiaeth o waith, y cyfleon cyffroes yn y byd Amgueddfeydd a'r Celfyddydau a'r tîm gwych!

Os faswn i'n cael unrhyw arch bŵer….. bydda medru 'gwglo' lle mae petha ee pan wedi colli goriadau – nai 'gwglo' lle mae nhw yn reit uchel ar y rhestr!

Fy hoff eitem o'r casgliad…www… anodd dewis, ond mae arwydd 'Four Alls' yn un o fy hoff rai gan fod y neges yn un sydd yn pontio canrifoedd ac dal yr un mor berthnasol heddiw, baner dirwestol Beddgelert gan ei bod yn reit unigryw ac adrodd stori yn ei delweddau, a'r gist waddol gan mai cyndadau i mi oedd ei pherchnogion.

Tu alla i'r gwaith dwi'n mwynhau crosio, darllen, cerdded, ymchwilio i hanes teulu a'r ardal lle dwi'n byw ….a chwerthin ( lot fawr!)